

Adroddiad Blynyddol

Comisiynydd Plant Cymru

ar Ddatgeliadau Camarfer 2017-2018

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol â gofynion cyfreithiol "Gorchymyn Personau Rhagnodedig (Adroddiadau ynghylch Datgelu Gwybodaeth) 2017".

Mae'r rheoliadau hyn yn pennu'r gofynion ynghylch rhoi adroddiadau gan sefydliadau ac unigolion sy'n Bersonau Rhagnodedig ar gyfer Datgelu Camarfer. Ystyr personau rhagnodedig yw pobl a chyrrff y gallwch ddatgelu camarfer iddynt yn hytrach na'i ddatgelu i'ch cyflogwr.

Mae Comisiynydd Plant Cymru yn berson rhagnodedig ar gyfer Datgelu Camarfer yng nghyswllt buddiannau plant a gellir cysylltu â'r swyddfa ynghylch materion sy'n ymwneud â hawliau, lles a materion sy'n effeithio ar blant, pobl ifanc a'r rheiny sy'n gofalu amdanynt, yng Nghymru.

Mae'r adroddiad canlynol yn darparu gwybodaeth am Ddatgelu Camarfer fel y'i disgrifiwyd yn strategaeth yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Daiwydiannol "*Whistleblowing — Prescribed Persons Guidance 2017*".

1. Ystadegau

Nifer y datgeliadau cymwys a wnaed gan weithwyr yn ystod y deuddeg mis 1.4.17 — 31.3.18	1
Nifer y datgeliadau cymwys y penderfynodd Comisiynydd Plant Cymru gymryd camau pellach mewn perthynas â nhw	0

2. Crynodeb o'r math o gamau a gymerwyd gan y person rhagnodedig yng nghyswllt y person cymwys ac yng nghyswllt y datgeliad cymwys.

Rhodddwyd cyngor i'r datgelwr camarfer ynghylch rôl Comisiynydd Plant Cymru fel sefydliad rhagnodedig yng nghyswllt datgelu camarfer.

Roedd y datgelwr wedi sbarduno camau o dan bolisi datgelu camarfer yr awdurdod lleol ac roedd yr awdurdod lleol yn ymchwilio i'r materion a godwyd. Gan fod ymchwiliad ar waith yn barod i'r materion a godwyd gan y datgelwr, nid oedd yn briodol i'r Comisiynydd Plant gymryd camau pellach.

Cynigiwyd darparu cymorth parhaus i'r datgelwr petai'n anfodlon ar yr ymchwiliad yr oedd yr awdurdod lleol yn ei gynnal. Nid yw'r datgelwr wedi manteisio ar y cynnig hwn hyd yn hyn.

3. Crynodeb o sut mae'r wybodaeth a ddatgelwyd wedi effeithio ar allu Comisiynydd Plant Cymru i berfformio'i swyddogaeth a chyflawni'i amcanion.

Nid oes effaith wedi bod gan na chymerwyd camau mewn perthynas â'r wybodaeth a ddatgelwyd.

4. Esbonio swyddogaethau, amcanion a phwerau statudol Comisiynydd Plant Cymru

Mae Comisiynydd Plant Cymru (y "**Comisiynydd**") yn swydd a sefydlwyd yn unol â Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001 a oedd yn diwygio Deddf Safonau Gofal 2000 ("**Deddf 2000**"). Mae pwerau a swyddogaethau'r Comisiynydd yn deillio o Ddeddf 2000.

Rhoddwyd rhagor o bwerau i'r Comisiynydd yn unol â Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru 2001 ("**Rheoliadau 2001**"). Yn eu hanfod, mae'r rheoliadau hyn yn helaethu'r pwerau a'r swyddogaethau a roddwyd i'r Comisiynydd o dan Ddeddf 2000.

Nod pennaf Comisiynydd Plant Cymru yw diogelu a hybu hawliau a lles **plant**.

Gellir rhannu prif bwerau statudol y Comisiynydd rhwng dau bennawd:

- Pwerau i adolygu gweithgareddau cyrff cyhoeddus penodol;
- Pwerau i gynorthwyo **plant** unigol.

Pwerau Adolygu

Mae gan y Comisiynydd y pŵer i wneud y canlynol:

- adolygu swyddogaethau neu weithrediad swyddogaethau gwahanol gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. ac
- adolygu a monitro'r trefniadau sydd ar waith gan gyrff cyhoeddus penodol i ddiogelu a hybu hawliau **plant** o ran y canlynol:
 - delio â chwynion neu sylwadau;
 - sicrhau y cymerir camau priodol mewn ymateb i **ddatgelu camarfer**;
 - cynrychioli barn a dymuniadau **plant**;
 - rhoi **cyngor a chymorth** i **blant**.

Pwerau Cynorthwyo

Yng nghyswllt **plant** unigol, mae gan y Comisiynydd y pŵer i wneud y canlynol:

- archwilio achosion unigol o dan rai amgylchiadau;
- helpu **plentyn** o ran:
 - cwyno neu roi sylwadau ar y gwasanaethau y mae'r **plentyn** yn eu derbyn; neu
 - mewn **achosion** penodol (mae cyfyngiadau o ran **achosion cyfreithiol**).